



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

Ionawr 4 2022

Annwyl Huw

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau (y Bil). Ysgrifennaf mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor. Mae'r argymhellion a'm hymatebion wedi'u nodi isod.

Argymhelliad 1. *Cyn gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog sicrhau ei fod yn cael ei ddiwygio er mwyn darparu bod Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer Cymru, yn cael pwerau cychwyn sy'n cyfateb i'r rhai a roddwyd eisoes i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel bod Gweinidogion Cymru yn llwyr reoli pryd y daw'r darpariaethau ar gyfer Cymru i rym.*

Ymateb

Nid wyf o'r farn bod angen dirprwyo'r pwerau cychwyn nad ydynt wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru. Mae swyddogion wedi gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gychwyn darpariaethau yng Nghymru lle bo angen a lle bo'n briodol inni gael pwerau o'r fath. Nid wyf, felly, yn bwriadu ceisio gwelliannau pellach i'r Bil er mwyn dirprwyo pwerau cychwyn ychwanegol.

Argymhelliad 2. *Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog ddarparu asesiad llawn a manwl o'i barn:*

- *mai cyfyngedig yw goblygiadau cyfansoddiadol cronnus y weithred o ofyn a chaniatáu i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd cwbl ddatganoledig o fewn ei chylch gorchwyl;*



▪ *nad yw ei dull gweithredu mewn unrhyw ffordd yn tanseilio'r ffaith bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb

Rydym wedi datgan y byddwn yn mynd ati'n bragmataidd i ddefnyddio deddfwriaeth y DU i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru lle bo angen mewn meysydd datganoledig. Nid oes dim yn y Bil yn cyfyngu ar gymhwysedd y Senedd yn y maes hwn. Felly, ni welaf unrhyw oblygiadau cyfansoddiadol cronus i ddarpariaethau'r Bil sydd, yn fy marn i, yn rhai hunangynhwysol sy'n sefyll ar eu pen eu hunain.

Argymhelliad 3. *Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog roi esboniad llawn ynghylch pam y penderfynodd ddyrannu adnoddau yn ei hadran i gefnogi'r gwaith o ddrafftio a phasio Bil y DU yn hytrach na dyrannu adnoddau i hwyluso'r gwaith o ddrafftio a chraffu ar Fil i Gymru. Wrth wneud hynny, dylai'r Gweinidog roi manylion am faint o swyddogion Llywodraeth Cymru sydd wedi'u dyrannu i'r tasgau a ganlyn, ynghyd â'r amser a dreuliyd:*

- *paratoi'r cyfarwyddiadau cyfreithiol y byddai cwmsler cyfreithiol Llywodraeth y DU wedi'u defnyddio wrth baratoi'r darpariaethau pwrpasol i Gymru yn y Bil;*
- *craffu ar y cymalau drafft a baratowyd gan ddrafftwyd cwmsler cyfreithiol Llywodraeth y DU a'u diwygio cyn iddynt gael eu cynnwys yn y Bil i'w gyflwyno gerbron Senedd y DU;*
- *gwaith rhynglywodraethol parhaus ar y Bil, gan gynnwys trafod a drafftio unrhyw ddiwygiadau i'r Bil;*
- *monitro hynt y Bil drwy Senedd y DU a darparu'r cyngor a'r diweddariadau angenrheidiol.*

Ymateb

Roedd fy ymateb i lythyr cadeirydd y pwyllgor, dyddiedig 16 Tachwedd 2021, yn nodi'r rhesymeg dros fanteisio ar y cyfle a gododd yn sgil Bil Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau i'r system rheoli adeiladu, mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad annibynnol. Nodwyd y dull gweithredu arfaethedig ym mhapur gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru ac fe'i hategwyd yn glir gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad. [Adeiladau mwy diogel yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

Cyhoeddwyd map gweithredu'r Grŵp Arbenigwyr ar Ddiogelwch Adeiladau ym mis Mawrth 2019 a oedd yn cefnogi llawer o'r newidiadau mawr a gynigiwyd gan yr adroddiad annibynnol, ond ar y pryd roeddem yn ystyried pa union ddefnydd i'w wneud o'r Bil Diogelwch Adeiladau. Nid oeddem eto wedi cyhoeddi'r papur gwyn ac nid oedd manylion amseru unrhyw Fil Senedd wedi'u penderfynu eto. Mae'n debygol y byddai wedi bod angen dau Fil, h.y. Biliau ar wahân ar gyfer adeiladu ar y naill law a meddiannaeth ar y llall, gan fod gofyn ailfeddwl ar lefel sylfaenol ynghylch rheoleiddio mewn perthynas â meddiannaeth, tra bo argymhellion yr adroddiad annibynnol ar gyfer adeiladu yn golygu gwella system a oedd eisoes yn bodoli (rheoli adeiladu).



Daeth ein hasesiad i'r casgliad bod defnyddio Bil Llywodraeth y DU yn cynnig manteision gwirioneddol dros Fil Senedd, a fyddai'n rhoi sylw i'r un materion a'r bôn rywbryd yn y dyfodol. Roedd lefel yr adnoddau polisi a chyfreithiol a oedd yn ofynnol i addasu'r Bil Diogelwch Adeiladau yn golygu y gellid gwneud y gwaith o fewn y ddarpariaeth bresennol. Mae hyn yn parhau i fod yn wir wrth i'r Bil fynd drwy Senedd San Steffan.

Nid oes cymhariaeth rhwng yr adnoddau a dreulir i ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU a'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen i sefydlu tîm ar gyfer Bil Senedd sy'n cystadlu â blaenoriaethau deddfwriaeth a pholisi eraill.

Argymhelliad 4. *Cyn y ddatl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog roi esboniad manwl ynghylch sut y mae ei chynlluniau i ddefnyddio'r Bil hwn, a Bil i Gymru yn y dyfodol yn nhymor y Senedd hon sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau, yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Wrth wneud hynny, dylai'r Gweinidog ymdrin â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi bod rheoliadau tai a rheoliadau adeiladu yn feysydd cyfreithiol posibl i'w cydgrynhoi yn nhymor y Chweched Senedd.*

Ymateb

Fel yr wyf wedi nodi, mae'n debygol y byddai mynd â'r holl gynigion drwy'r Senedd wedi golygu dau Fil gwahanol, oherwydd y gwahanol gamau o ran datblygu polisi adeiladu a meddiannaeth.

Er ei bod yn siomedig mai yn Saesneg yn unig y bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol, fel y dywedais yn fy ymateb bydd y manylion hollbwysig sy'n gweithredu darpariaethau'r Bil ac y bydd y byd y tu allan yn tueddu i ymwneud â nhw, sef yr is-ddeddfwriaeth, yn ddwyieithog.

Bydd y rhain, ynghyd â chanllawiau gweithdrefnol ategol, yn sicrhau bod pob parti yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth symud ymlaen o dan y system newydd.

Mae cynnwys Rheoliadau Adeiladu fel maes posibl i'w gydgrynhoi yn Dyfodol Cyfraith Cymru: Rhaglen Hygyrchedd 2021 i 2026 yn dyst i'r rôl hon y mae rheoliadau yn ei chwarae ym maes dylunio ac adeiladu. Er mwyn sicrhau gwerth mwyaf posibl y broses, byddai angen cwblhau unrhyw gamau i gydgrynhoi'r Rheoliadau Adeiladu ar ôl i'r rheoliadau diwygio i fewnosod y system newydd gael eu gwneud.

Argymhelliad 5. *Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar reoliadau drafft a fydd yn rhoi effaith i'r darpariaethau yn y Bil.*

Ymateb

Mae fy llythyr, dyddiedig 16 Tachwedd, yn nodi y byddwn maes o law yn ystyried ein trefniadau i ddatblygu ac ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o ymgynghori ar reoliadau drafft.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Bydd y rheoliadau a gyflwynir gennym wedyn yn destun ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â'n hegwyddorion a'n gweithdrefnau fel y'u nodir yn y llawlyfr Ddeddfwriaeth ar is-ddeddfwriaeth. Cytunaf yn llwyr â'r canllawiau hyn sy'n nodi y dylid seilio'r gwaith o ddatblygu is-ddeddfwriaeth ar broses ymgysylltu ac ymgynghori briodol a rhanddeiliaid, a'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Bydd ein hymgyngoriad yn cynnwys y ddeddfwriaeth ddrafft sy'n nodi ein diffiniad arfaethedig o adeilad risg uwch, a lle na fydd deddfwriaeth ddrafft wedi'i chynnwys, bydd digon o fanylion polisi i bobl allu ymateb mewn ffordd gynhwysfawr.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change